**DIOGELU EICH PREIFATRWYDD**

Rydych wedi cael eich gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgaredd ymchwil farchnad a gynhelir gan Brifysgol Abertawe er mwyn deall yn well sut mae gwahanol boblogaethau'n meddwl am ei chynnyrch a'i gwasanaethau.

Rydych yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn yn hollol wirfoddol ac mae gennych hawl i dynnu'n ôl o'r gweithgaredd unrhyw bryd.

Os dewiswch gymryd rhan, gofynnir i chi ddarparu ychydig o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben penodol sy'n sail ei chasglu yn unig. Prifysgol Abertawe yw'r Rheolydd Data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Hoffai'r Brifysgol gasglu un neu fwy o'r canlynol er mwyn trefnu i ymatebwyr yr arolwg gymryd rhan mewn ymchwil bellach, darparu gwybodaeth neu gael gwybod eu bod wedi ennill gwobr. enw, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost.

Hoffai'r Brifysgol gasglu un neu fwy o'r canlynol er mwyn hwyluso dadansoddiad manylach o'r canlyniadau: oedran, rhyw, cenedligrwydd,cymwysterau, math o fyfyriwr, lleoliad, cefndir ethnig, gwybodaeth ynghylch ysgoloriaethau/bwrsariaethau.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon amdanoch chi oherwydd eich bod wedi rhoi'ch cysyniad i ni brosesu'ch data personol a'ch cydsyniad penodol i ni brosesu'ch data categori arbennig. Gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl unrhyw bryd drwy e-bostio sarah.smith@abertawe.ac.uk

Byddwn yn cadw pob ymateb yn gyfrinachol ac ni fydd ymatebion unigol yn cael eu hadnabod na'u hamlygu wrth ddadansoddi'r canlyniadau.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi sy'n galluogi rhywun i'ch adnabod â neb y tu allan i'r Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn cadw'r data personol a ddarparwyd gennych ar gyfer y gweithgaredd hwn am hyd at 12 mis o ddyddiad cwblhau dadansoddi'r canlyniadau.

Os yw'r gweithgaredd ar ffurf arolwg ar-lein, ni fyddwch yn gallu symud drwy'r gweithgaredd neu ei gwblhau os nad ydych wedi ateb pob cwestiwn gofynnol, er nad oes rhwymedigaeth arnoch i ddarparu ateb neu i barhau i gymryd rhan.

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu, i gywiro, dileu a chyfyngu ar fynediad at eich gwybodaeth bersonol a'i throsglwyddo. Ewch i dudalennau gwe’r Brifysgol am ddiogelu data i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau.

Os oes gennych gwestiynau ychwanegol, e-bostiwch Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn dataprotection@abertawe.ac.uk

Dylid cyflwyno ceisiadau neu wrthwynebiadau'n ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:

Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data)
Swyddfa'r Is-ganghellor

Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd mae'ch data bersonol wedi cael ei brosesu, i ddechrau, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn parhau'n anfodlon wedi hynny, mae gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth a gofyn am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Tŷ Wycliffe,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer,
SK9 5AF
www.ico.org.uk